WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Dyddiad cyhoeddi:** 15 Hydref 2018

# Cynnal Systemau Ffôn

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth isod, dyddiedig 04 Hydref 2018, pan ofynnoch am wybodaeth mewn perthynas â chontractau cynnal ffonau.

Rydym yn dal peth gwybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad ynghylch y wybodaeth y gofynnwyd amdani ac rwyf wedi'i nodi isod.

**Teleffoni**

Darparir yr holl systemau teleffoni ar hyn o bryd o dan un contract gydag Interoute, a ddechreuodd ar 17 Gorffennaf 2018 am ddwy flynedd gydag opsiynau i adnewyddu dwywaith am gyfnod o 12 mis bob tro, gan ddod i uchafswm o bedair blynedd. Mae'r contract ar gyfer datrysiad Skype lletyol. Mae hefyd yn cynnwys prif gysylltiad SIP i switsh ffôn etifeddol yn yr adeilad, i hwyluso symud ein defnyddwyr o'r switsh etifeddol i'r datrysiad Skype lletyol. Mae'r contract yn cwmpasu rhifau a 'llinellau' 'deialu uniongyrchol' ar gyfer 335 o ddefnyddwyr. Elfen sefydlog y tâl misol yw £3,865.50 yn ogystal ag amcangyfrif o £248 y mis ar gyfer taliadau am alwadau. Cyflawnwyd y broses gaffael trwy Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron G Cloud 9.

**Manylion cyswllt**

Dylid cyfeirio ymholiadau yn ymwneud â theleffoni i ITSupport@archwilio.cymru neu ffonio 02920 320690.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, neu gwestiynau o ran sut rwyf wedi ymdrin â'ch cais, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth